# DATBLYGU EICH BUSNES
## Rhagfyr 2018 – Mawrth 2019

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### Statws RAG

**Coch: Tu ôl i'r targed** **Melyn: Bron â chyflawni'r targed** **Gwyrdd: Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed**

**Cyfanswm sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ers 01/10/2015**


**9971** BUSNES a **20226** UNIGOLYN


### Gwasanaeth Cynghori

Mae Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio yn darparu cyngor arbenigol, annibynnol, cyfrinachol wedi'i deilwra ar gyfer Busnesau Ffermio a Choedwigaeth.

Y nod yw sicrhau bod busnesau yn:

- elwa o gefnogaeth busnes a/neu gyngor technegol, wedi'i deilwra i anghenion eich busnes
- lleihau costau trwy gynyddu effeithlonrwydd ar draws pob maes o'ch busnes
- meincnodi eich perfformiad ac yn gweithio tuag at gynnydd a thwf
- adnabod meysydd i wella a chanfod atebion i broblemau




### Astudiaeth Achos

Mae addasiadau syml a chost effeithiol i reoli slyri ac elifiant a roddwyd ar waith gan y ffermwr llaeth, Randal Williams o sir Benfro wedi ei alluogi i leihau faint o wastraff sy'n cael ei storio yn lagŵn y fferm yn sylweddol, ac i wneud gwell defnydd o faetholion ar y fferm. Roedd cyngor isadeiledd ar storio tail a slyri gan yr ymgynghorydd adeiladau ac amgylcheddol annibynnol, Keith Owen, a ariannwyd yn rhannol gan Cyswllt Ffermio.

Neges Mr Williams i ffermwyr eraill yw y dylent wneud defnydd llawn o wasanaethau Cyswllt Ffermio. "Gofynnwch am gyngor," meddai. "Mae sicrhau'r cyngor cywir wedi arbed miloedd o bunnoedd i ni ac wedi rhoi'r hyder i ni wybod ein bod yn gwneud y peth iawn o ran ein rheolaeth slyri".



Cliciwch yma i ddarllen mwy.

### Cymorthfeydd un i un

Mae cymorthfeydd yn darparu cyngor ac arweiniad un i un gydag ymgynghorydd mewn lleoliadau penodol.

**Targed blynyddol = 60 Targed a gyflawnwyd = 45**

- 7 CYMHORTHFA ADOLYGU BUSNES DIGIDOL
- 5 CYMHORTHFA GYNLLUNIO
- 2 GYMHORTHFA OLYNIAETH DDIGIDOL
- 10 CYMHORTHFA OLYNIAETH
- 7 CYMHORTHFA MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO
- 5 CYMHORTHFA TG
- 1 CYMHORTHFA GYNLLUNIO DDIGIDOL
- 3 CYMHORTHFA CYFRYNGAU CYMDEITHASOL
- 3 CYMHORTHFA CYFRYNGAU CYMDEITHASOL
- 2 GYMHORTHFA RHEOLAETH ARIANNOL

### Canlyniad Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio:

Ar ôl siarad gyda'n hymgynghorydd marchnata ac arallgyfeirio, dywedodd un cleient fod y cyfarfod wedi gwneud iddo sylweddoli na fyddai'r syniad y buont yn ei ystyried yn wreiddiol cyn y cyfarfod yn ymarferol. Pan ofynnwyd iddo beth oedd wedi ei ddysgu, dywedodd "Gwahanol opsiynau y byddai modd eu hystyried cyn parhau gyda'r cynllun."

### Canlyniad Cymhorthfa Olyniaeth:

Dywedodd un cleient "Mae'r sesiwn wedi gwneud i ni ail werthuso ac ystyried dyfodol ein busnes". Mae hyn yn dangos gwerth sesiynau o'r fath, yn enwedig i'r rhai hynny nad ydynt wedi trafod olyniaeth y fferm yn flaenorol.

### Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

Sioeau teithiol ar sectorau penodol, sesiynau galw heibio a gweithdai.

**57** O DDIGWYDDIADAU gyda **2428** O FYNYCHWYR

**Targed blynyddol = 70 Digwyddiadau a gynhaliwyd = 57**

Mae'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| GWNEUD TRETH YN DDIGIDOL | DECHREUWCH Y SGWRS – GWEITHDAI OLYNIAETH |
| GRANT CYNHYRCHU CYNALIADWY | FFORWM FFERMWYR TENANT |

### Dechreuwch y sgwrs…

Yn dilyn llwyddiant y gweithdai olyniaeth gyda'r hwylusydd Sian Bushell, mae busnesau wedi manteisio ar wasanaethau ychwanegol sydd ar gael iddynt yn ystod y gweithdai. Rydym ni wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau mentora a cheisiadau i fynychu cymorthfeydd olyniaeth. Roedd y digwyddiadau hyn yn rhan o ymgyrch ehangach; cafodd hysbysebion teledu a llawlyfr Olyniaeth hefyd eu comisiynu. Byddwn yn cynnal cyfres arall o ddigwyddiadau dros yr haf ac yn parhau i hyrwyddo "dechreuwch y sgwrs".

Adborth gan unigolion yn amlinellu'r hyn a ddysgwyd:

*"Pwysigrwydd siarad gydag aelodau'r teulu am y busnes a'r disgwyliadau"*

*"Mae gen i well dealltwriaeth o sut mae partneriaethau'n gweithio"*

*"Mae'n bwysig cynllunio ymlaen llaw ac i beidio â rhoi pethau i'r naill ochr"*

*"Rydw i bellach yn gwybod pa gymorth sydd ar gael"*

*"Mae gen i well dealltwriaeth o broses ewyllys"*

### Grwpiau Trafod

**144** CYFARFOD gyda **1167** O FYNYCHWYR

Mae Grwpiau Trafod Cyswllt Ffermio yn caniatáu busnesau i ddysgu oddi wrth ei gilydd, trafod heriau, ystyried cyfleoedd, ac o bosibl i ganfod ffyrdd newydd neu well o wneud pethau.

## Astudiaeth Achos

Daeth Grŵp Trafod Llaeth Gogledd Cymru at ei gilydd ar gyfer ei gyfarfod adolygu meincnodi blynyddol ym mis Mawrth. Manteisiodd y grŵp ar y cyfle i gymharu data fferm gyda'i gilydd, a gwelsant fod y canlyniadau'n eithaf cyson. Codwyd y pwyntiau canlynol fel problemau cyffredin:

- Mae costau ynni yn uchel iawn ar bob fferm yn y grŵp
- Mae costau milfeddygol yn dal i fod yn uchel fesul fferm o'i gymharu â llynedd
- Roedd gan y rhan fwyaf o ffermydd gostau uchel ar gyfer magu stoc ifanc
- Roedd y rhan fwyaf yn derbyn pris teg am eu llaeth

Cafodd y grŵp drafodaeth adeiladol ynglŷn â'r materion a nodwyd, gan gynnwys ffyrdd posibl i leihau rhai o'r costau. Mae'r Swyddog Datblygu wedi cynnig cyfle i bob aelod dderbyn clinig ar y fferm gydag arbenigwr ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, a fyddai'n gallu edrych yn fanwl ar ddefnydd ynni ar eu ffermydd, ac awgrymu ffyrdd o arbed defnydd a chostau. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r grŵp wedi manteisio ar y cyfle i dderbyn clinig un i un ar y fferm gyda'r arbenigwr ynni adnewyddadwy, Chris Brooks, ac mae'r clinigau hyn yn cael eu trefnu ar hyn o bryd.

## Gwefan Cyswllt Ffermio a'r Cyfryngau Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Nifer yr ymweliadau â thudalennau unigryw (Rhagfyr 2018 – Mawrth 2019) | 124,611 |
| Amser a dreulir ar y wefan ar gyfartaledd | 00:01:45 |
| Nifer y dilynwyr ar Twitter ar 31.01.19 | 4651 |
| Nifer sy'n hoffi ar Facebook ar 31.01.19 | 7846 |

## Rhwydwaith Arddangos

| | |
|---|---|
| Safleoedd Arloesedd | 8 |
| Safleoedd Arddangos | 12 |
| Safleoedd Ffocws (Cyfanswm Cronnus) | 125 |

## Digwyddiadau'r Rhwydwaith Arddangos

| | Cyfanswm Digwyddiadau (Targed Blynyddol) | Cyfanswm Digwyddiadau (A gynhaliwyd) |
|---|---|---|
| Digwyddiadau Safleoedd Arloesedd | 32 | 6 |
| Digwyddiadau Safleoedd Arddangos | 36 | 20 |
| Digwyddiadau Safleoedd Ffocws | 54 | 32 |

**1555** WEDI MYNYCHU DIGWYDDIADAU'R RHWYDWAITH ARDDANGOS

Mae'r map isod yn dangos y digwyddiadau a gynhaliwyd ledled Cymru mewn perthynas â'r Rhwydwaith Arddangos.


Cliciwch yma i ddarllen mwy am brosiectau a digwyddiadau ein Rhwydwaith Arddangos.




## Prosiectau ar y Fferm

### Canfod coed ar gyfer biomas o adnoddau naturiol cynaliadwy

Gyda diddordeb cynyddol mewn ynni o fiomas, mae Safle Ffocws Garthmyn Isaf wedi bod yn ymchwilio sut y byddai modd datblygu cyflenwad cynaliadwy o goed i fodloni'r galw cynyddol. Crëwyd y fideo canlynol i ddangos canlyniadau'r gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yma.



Cliciwch ar y sgrin deledu i wylio'r fideo.

### Defnyddio AI serfigol ar y cyd â semen wedi'i rewi i gyflymu gwelliannau genetig mewn diadelloedd

Mae Coleg Llysfasi yn ymchwilio i'r defnydd o AI serfigol i gyflymu gwelliannau genetig yn ei ddiadell. Yn y DU, AI laparosgopig a ddefnyddir fel arfer, ond mae hyn yn ddrud ac yn gallu bod yn ymosodol iawn. Yn Sgandinafia, defnyddir AI serfigol yn llwyddiannus, ac yn dilyn ei ymweliad fel rhan o'r Gyfnewidfa Rheolaeth, mae Alwyn Phillips yn helpu i ddod â'r dull hwn i Gymru. Mae'r ŵyn cyntaf wedi cael eu geni, ac roedd y canlyniadau cychwynnol yn siomedig gyda 10% yn unig o'r mamogiaid yn beichiogi o ganlyniad i'r AI. Fodd bynnag, mae'r tîm yn hyderus y gallant wella ar hyn gan eu bod wedi sylweddoli bod y mamogiaid yn gofyn hwrdd ynghynt na'r disgwyl. Felly mae'n debygol bod y cyfnod mwyaf priodol wedi cael ei fethu a bod mamogiaid wedi cael eu ffrwythloni tu allan i'r cyfnod hwn.

### Defnyddio Cynllun Rheoli Mastitis ar Safle Ffocws Longlands – Adolygiad chwe misol

Dros y chwe mis diwethaf, mae Fferm Longlands wedi bod yn canolbwyntio ar well eu rheolaeth o fuchod sych yn dilyn cynnydd sydyn mewn cyfrif celloedd somatig. Mae'r newidiadau a wnaed yn cynnwys:

- Therapi buchod sych dethol ar gyfer pob buwch a rhoi'r driniaeth gan ddefnyddio dulliau hylan
- Addasu arferion gwasarn, gan roi gwellt glân yn ddyddiol yn yr iard loia
- Mwy o le yn yr ardal ymlacio
- Pob achos clinigol o fastitis yn cael ei drin gyda gwrthfiotigau a'i gofnodi ar feddalwedd y fferm

Mae'r gwelliannau a gofnodwyd yn cynnwys:

- 15% o'r gwartheg gyda chyfrif celloedd somatig >200,000 cell/ml o'i gymharu â 20% yn 2018
- Cyfraddau heintio yn ystod y cyfnod sych wedi gostwng i lai na 10% o'i gymharu â 2018
- Mae'r gyfradd mastitis clinigol wedi sefydlogi ar oddeutu 30 o achosion fesul 100 buwch y flwyddyn

| Costau Haint Mastitis Is-glinigol | | | |
|---|---|---|---|
| Cost ar y fferm ££ | Hydref 2018 | Mawrth 2019 | Gwahaniaeth mewn costau |
| Fesul blwyddyn | £27,720 | £21,600 | Arbediad o £6,120 |
| Fesul buwch | £81.53 | £63.53 | Arbediad o £18.00 |

Fel y gwelir uchod, mae arbedion costau i'w gweld o fewn chwe mis yn unig.

## Cyfathrebu'r canlyniadau

Mae cyfathrebu canlyniadau'r gwaith a wneir fel rhan o'r Rhwydwaith Arddangos yn hanfodol. Mae Cyswllt Ffermio yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl yn cael ei ddysgu drwy gynnal prosiectau gan gynnwys:

Erthyglau: Mae 15 wedi cael eu creu – mae pob erthygl ar wefan Cyswllt Ffermio, a gan ddibynnu ar y cynnwys, mae rhai ohonynt yn cael eu rhannu gyda'r Farmers Guardian, Farmers Weekly, NSA a'r Undebau Ffermio.

Blogiau a chlipiau fideo i ddarparu diweddariadau ar safleoedd – mae 4 wedi cael eu paratoi

Cyfryngau cymdeithasol

Diweddariadau Facebook: 5

Diweddariadau Twitter: 3

Fideos: 11

Ymweliadau â'r wefan:

Safleoedd Arloesedd: 176

Safleoedd Arddangos: 720

Safleoedd Ffocws: 837

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government